

## Rhagarweiniad

### 1. Darpariaethau Cyffredinol

- 1.1 Gall Bwrdd yr Ymddiriedolwyr benodi pwyllgorau fel y gwêl yn dda.
- 1.2 Bydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn rheoli'r busnes os yw'r bwrdd yn gyfunol lle bydd modd. Fodd bynnag, gall y bwrdd alw cyfarfodydd yr is-bwyllgorau canlynol yn ôl yr angen.
- 1.3 Caiff sefydlu pwyllgor newydd ei gytuno mewn cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a fydd yn darparu cylch gorchwyl eglur, faint o awdurdod a ddirprwyir ac aelodaeth y pwyllgor.
- 1.4 Rhaid cadw cofnod o bob cyfarfod pwyllgor.
- 1.5 Rhaid hysbysu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ynglŷn ag unrhyw gyfarfod pwyllgor, gan gynnwys unrhyw benderfyniadau ac argymhellion a wneir.
- 1.6 Caiff holl aelodau'r pwyllgorau sy'n Swyddogion Ymddiriedolwyr eu dethol, lle bo hynny'n bosib, yng nghyfarfod cyntaf bwrdd yr Ymddiriedolwyr a fynychir gan Swyddogion Ymddiriedolwyr newydd, a byddant yn gwasanaethu am y flwyddyn lawn. Gall Swyddogion Ymddiriedolwyr eraill fynychu cyfarfodydd, ond ni ellir trosglwyddo hawliau pleidleisio ac eithrio drwy gynnig gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- 1.7 Dylai Ymddiriedolwyr Allanol sy'n gwasanaethu ar bwyllgorau, pryd bynnag fo hynny'n bosib, wasanaethu'n ddi-dor am flynyddoedd olynol o fewn cyfnod y swydd, er mwyn darparu dilyniant o un flwyddyn i'r llall.
- 1.8 Ysgrifennydd pob pwyllgor fydd Prif Weithredwr UMABer neu ei enwebai, a fydd yn mynychu pob cyfarfod pan fydd ar gael, ynghyd ag unrhyw aelod staff UMABer perthnasol arall.

### 2. Pwyllgor Penodi a Llywodraethu

- 2.1.1 Gall y Pwyllgor Penodi a Llywodraethu gynorthwyo'r Bwrdd drwy gymryd cyfrifoldeb dros ganfod a chynnig ymddiriedolwyr allanol, yn ogystal â sefydlu, cefnogi a datblygu pob Ymddiriedolwr. Bydd y Pwyllgor Penodi a Llywodraethu'n cynorthwyo'r Bwrdd yn ei swyddogaethau llywodraethiant.
- 2.2 Bydd y Pwyllgor Penodi a Llywodraethu'n cynnwys:
  - a. Ymddiriedolwr Allanol arall (Cadeirydd)
  - b. Llywydd (ex-officio)
  - c. Swyddog Ymddiriedolwr arall
  - d. Ymddiriedolwr Allanol arall
  - e. Prif Weithredwr (yn gwasanaethu)
  - f. Unrhyw aelod staff arall yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol (yn gwasanaethu)
- 2.3 Y cworwm ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Penodi a Llywodraethu fydd tri aelod, a bydd un ohonynt yn ymddiriedolwr allanol.
- 2.4 Caiff aelodaeth y Pwyllgor hwn ei adolygu'n flynyddol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl i dîm newydd o Swyddogion ymgymryd â'u swyddi.
- 2.5 Bydd gan y Pwyllgor yr awdurdod dirprwyedig i:
  - a. Penderfynu ar broses ar gyfer recriwtio Ymddiriedolwyr Allanol;
  - b. Penderfynu ar y broses ar gyfer penodi Aelodau Oes er Anrhydedd (gwneir y penderfyniad gan Gyngor yr Undeb/Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol);
- 2.6 Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ar y canlynol:
  - a. Pob mater sy'n perthyn i'r broses ar gyfer penodiad ymddiriedolwyr, eu sefydlu, eu mentora a'u datblygu;
  - b. Penodi Cadeiryddion yr Is-bwyllgorau (ar gyngor Cadeirydd y Bwrdd);
  - c. Penodi aelodau i Is-bwyllgorau;

- d. Cyfrifoldebau statudol y Bwrdd;
- e. Arfer da, gan gynnwys parthed perfformiad y Bwrdd a'r Ymddiriedolwyr;
- f. Effeithiolrwydd gweithrediad y system lywodraethiant a fabwysiadwyd gan yr Undeb, a'r
- g. Broses o gynnal etholiadau'n deg a democrataidd.

### 3. Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg

3.1 Gall y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg adolygu a goruchwyllo strategaeth gyllidol UMABer, sicrhau bod pob cyfraith a rheoliad perthnasol yn cael ei ddilyn a sicrhau bod strwythur reolaeth fewnol effeithiol mewn lle, ynghyd â dadansoddi a rheoli proffil risg cyffredinol yr undeb.

3.2 Bydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg yn cynnwys:

- a. Ymddiriedolwr Allanol arall (Cadeirydd)
- b. Llywydd (ex-officio)
- c. Swyddog Ymddiriedolwr arall
- d. Ymddiriedolwr Allanol arall
- e. Myfyriwr Ymddiriedolwr arall
- f. Prif Weithredwr (yn gwasanaethu)
- g. Swyddog Cyllid (yn gwasanaethu)

3.3 Y cworwm ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg fydd tri aelod, ac ni fydd un ohonynt yn swyddog.

3.4 Caiff aelodaeth y Pwyllgor hwn ei hadolygu'n flynyddol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl i dîm newydd o Swyddogion ymgymryd â'u swyddi

3.5 Bydd gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg awdurdod wedi ei ddirprwyo i wneud y canlynol:

- a. Mynd i'r afael ag unrhyw broblem sylweddol sy'n deillio o adroddiadau'r:
  - i. Archwiliwr allanol;
  - ii. Unrhyw asiantaeth gyfrifo a benodir;
  - iii. Pwyllgor archwilio bwrdd y llywodraethwyr; neu
  - iv. Unrhyw faterion eraill y teimla'r Pwyllgor y dylid eu dwyn at sylw'r bwrdd.
- b. Cymeradwyo polisi ar reoli risg a monitro risg;
- c. Cymeradwyo polisi sy'n perthyn i ddiogelu asedau'r Undeb;
- d. Cymeradwyo gorchmynion ar gyfer rheoliadau cyllidol ar ran yr Undeb;
- e. Sicrhau bod gweithrediad archwilio mewnol effeithiol yn cael ei sefydlu gan y rheolwyr, sy'n darparu sicrwydd priodol i'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg, y Prif Weithredwr a'r Bwrdd;
- f. Adolygu, am gyfanrwydd a chywirdeb, systemau ar gyfer adroddiadau cyllidol i'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg, gan gynnwys systemau rheolaeth gyllidol;
- g. Adolygu systemau cyllidol a gwybodaeth, monitro cywirdeb y datganiadau ariannol ac adolygu dyfarniadau ar adroddiadau cyllidol sylweddol;
- h. Adolygu'r broses sefydlu a chynnal system effeithiol o lywodraethiant integredig, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn holl weithgareddau'r mudiad sy'n gefnogol i gyraeddiadau'r mudiad;
- i. Adolygu'r cynllun dilyniant busnes;
- j. Adolygu atodlenni o fantolen dyledwyr/credydwyr sydd dros chwe mis oed ac sy'n fwy na £5,000 ynghyd ag esboniad a chynlluniau gweithredu;
- k. #Adolygu'r adroddiad blynyddol a datganiadau cyllidol cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd, gan roi sylw penodol i'r canlynol:
  - i. Newidiadau mewn arferion a pholisïau cyfrifo a chydymffurfiad â nhw.
  - ii. Datganiadau heb eu haddasu yn y datganiadau cyllidol;
  - iii. Meysydd dyfarniad sylweddol;
  - iv. Addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad; ac

- l. Archwilio a chymeradwyo'r mecanweithiau a lefelau awdurdod ar gyfer gwariant.
- 3.6 Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ar y canlynol:
- a. Y datganiadau cyllidol blynyddol, gan gynnwys:
    - i. Y dewis o gael archwiliad allanol;
    - ii. Y datganiad o gyfrifoldebau aelodau;
    - iii. Y datganiad o lywodraethiant corfforaethol; ac
    - iv. Effeithiolrwydd rheoliadau mewnol.
  - b. Rhagolygon cyllidol tymor-canolig a'r cynllun ariannol blynyddol (amcangyfrif o incwm a gwariant);
  - c. Penodiad, taliadau, perfformiad, ymddiswyddiadau a diswyddo archwilwyr allanol;
  - d. Ceisiadau a pholisïau sy'n perthyn i arian wrth gefn;
  - e. Creu, monitro a rheoli unrhyw is-gwmnïau mae'r Undeb yn berchen arnynt;
  - f. Polisiâu sy'n ymwneud â phensiynau a buddion ymddeoliad;
  - g. Materion cyllidol sy'n deillio o'r adroddiadau ariannol blynyddol;
  - h. Cynllun busnes, a ffurfiant cylchol o'r cymorthdal (y cyfeirir ato fel grant bloc) a roddir i'r Undeb;
  - i. Perfformiad cyllidol cyffredinol yr undeb;
  - j. Y graddau mae'r Undeb yn parhau o fewn i'r cynllun ariannol blynyddol a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr;
  - k. Effeithiolrwydd y fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol;
  - l. Effeithiolrwydd y gweithdrefnau sy'n bodoli ar gyfer pryniant a chymeradwyo cytundebau;
  - m. Ar sefydlu a diddymu is-gwmnïau ac ymddiriedolaethau'r Undeb;
  - n. Iechyd cyllidol a hydaledd yr Undeb.

## 4. Pwyllgor Cyflogaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol

4.1 Gall y Pwyllgor Cyflogaeth a Thâl argymhell a goruchwylio gweithrediad strategaeth Adnoddau Dynol UMABer, goruchwylio newidiadau yn y polisiâu staffio, goruchwylio'r fframwaith ar gyfer gwerthuso staff a chyflogaeth, ynghyd ag arwain y broses o benodi, gwerthuso, disgyblu, diarddel a diswyddo'r Prif Weithredwr.

4.2. Bydd y Pwyllgor Cyflogaeth a Thâl yn cynnwys:

- a. Ymddiriedolwr Allanol arall (Cadeirydd)
- b. Swyddog Ymddiriedolwr arall
- c. Ymddiriedolwr Allanol arall
- d. Myfyriwr Ymddiriedolwr arall
- e. Prif Weithredwr (yn gwasanaethu)
- g. Rheolwr Adnoddau Dynol neu gyffelyb (yn gwasanaethu)

4.3 Y cworwm ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyflogaeth a Thâl fydd tri aelod, a bydd un ohonynt yn ymddiriedolwr allanol ac un arall un ymddiriedolwr sy'n fyfyrwr.

4.4 Caiff aelodaeth y Pwyllgor hwn ei adolygu'n flynyddol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl i dîm newydd o Swyddogion ymgymryd â'u swyddi.

4.5 Bydd gan y Pwyllgor Cyflogaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr awdurdod i wneud y canlynol:

- a. Cymeradwyo polisi iechyd, diogelwch a llesiant yr Undeb;
- b. Monitro a gwerthuso gweithrediad strategaethau a pholisïau parthed cyflogaeth a staffio; amrywioldeb a chydraddoldeb cyfle mewn cyflogaeth; a diogelwch, iechyd a llesiant;
- c. Cymeradwyo gweithrediad ac adolygiad system o ddatblygiad staff,
- d. Cymeradwyo polisi sy'n perthyn i weithdrefnau nodi absenoldeb ar sail iechyd a salwch yr Undeb; a
- e. Derbyn y diweddaraf ar newidiadau yn y gyfraith ar gyflogaeth a all effeithio ar yr Undeb.

4.6 Bydd y Pwyllgor Cyflogaeth a Chydnabyddiaeth Ariannol o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynghori'r Bwrdd ar y canlynol:

- a. Y gweithdrefnau manwl ar gyfer penodi, aseinio, cyflog a buddion, gwerthuso, disgyblu, diarddel a diswyddo staff;
- b. Cymeradwyo'r fframwaith ar gyfer cyflogau, pensiynau ac amodau gwaith staff;
- c. Monitro cydymffurfiaid yn erbyn deddfwriaeth;
- d. Pecyn cyflogaeth y Prif Weithredwr;
- e. Y broses ar gyfer penodi, gwerthuso, disgyblu, diarddel a diswyddo'r Prif Weithredwr;
- f. Strategaeth a pholisi cyflogaeth a staffio; a'r
- g. Pecyn cyflogaeth ar gyfer swyddogion sabothol.

## 5. Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

5.1 Gall y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywioldeb argymhell a goruchwylio gweithrediad strategaeth Gydraddoldeb ac Amrywioldeb UMAber.

5.2 Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywioldeb yn cynnwys:

- a. Ymddiriedolwr Allanol arall (Cadeirydd)
- b. Llywydd (ex-officio)
- c. Swyddog Ymddiriedolwr arall
- d. Ymddiriedolwr Allanol arall
- e. Myfyriwr Ymddiriedolwr arall
- f. Prif Weithredwr (yn gwasanaethu)
- g. Unrhyw aelod staff arall yr ystyrir yn angenrheidiol (yn gwasanaethu)

5.3 Y cworwm ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywioldeb fydd tri aelod, ac ni fydd un ohonynt yn swyddog.

5.4 Caiff aelodaeth y Pwyllgor hwn ei adolygu'n flynyddol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl i dîm newydd o Swyddogion ymgymryd â'u swyddi.

5.5 Bydd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywioldeb o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr awdurdod wedi ei ddirprwyo i wneud y canlynol:

- a. Cymeradwyo strategaeth a pholisi parthed amrywioldeb a chydraddoldeb cyfle mewn cyflogaeth a gwasanaethau masnachol ac anfasnachol;
- b. Trafod materion pwysig sy'n perthyn i amrywioldeb a chydraddoldeb, gan gynnwys y rheiny a godwyd gan staff UMAber a myfyrwyr UMAber er mwyn penderfynu ar ddull o weithredu priodol ar gyfer mynd i'r afael â'r mater;
- c. Monitro cynnydd UMAber yn erbyn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywioldeb; a
- d. Chymeradwyo polisiau ac arferion mewnol; sicrhau nad ydynt yn camwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol o fyfyrwyr y cyfeirir atynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

5.6 Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywioldeb o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynghori'r Bwrdd ar y canlynol:

- a. Cynnydd a wnaed tuag at weithredu polisiau ac arferion amrywioldeb a chydraddoldeb; a
- b. Thor polisiau cydraddoldeb UMAber.